Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

## Ystadegau Medr

# Hynt Graddedigion, 2022/23

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod:** | Sta/Medr/14/2025 |
| **Dyddiad:** | 23 Gorffennaf 2025 |
| **Dynodiad:** | Ystadegau Swyddogol |
| **E-bost:** | YstadegauAU@medr.cymru |


**Crynodeb:** Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys canlyniadau'r arolwg Hynt Graddedigion ar gyfer ymatebwyr fu'n astudio gyda darparwyr addysg uwch yng Nghymru, ac ymatebwyr o Gymru a astudiaeth gyda darparwyr addysg uwch ledled y DU.


**Thema:** Addysg Uwch

**Ffynhonnell:** Arolwg Hynt Graddedigion yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)


Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg |
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Prif bwyntiau

## Beth mae graddedigion yn ei wneud?

O blith y graddedigion o ddarparwyr addysg uwch (AU) Cymru a ymatebodd i arolwg Hynt Graddedigion 2022/23:

- Roedd 68% mewn cyflogaeth â thâl, 1% yn gwneud gwaith gwirfoddol neu ddi-dâl, 7% yn astudio ymhellach ac 11% yn gwneud cyfuniad o waith ac astudiaethau pellach.
- Roedd 6% yn ddi-waith a 7% yn gwneud rhywbeth arall, fel teithio, gofalu am rywun, neu wedi ymddeol.

O blith y graddedigion o Gymru a oedd yn astudio yn unrhyw ran o'r DU, ac a ymatebodd i arolwg Hynt Graddedigion 2022/23:

- Roedd 70% mewn cyflogaeth â thâl, 1% yn gwneud gwaith gwirfoddol neu ddi-dâl, 6% yn astudio ymhellach ac 11% yn gwneud cyfuniad o waith ac astudiaethau pellach.
- Roedd 4% yn ddi-waith a 7% yn gwneud rhywbeth arall, fel teithio, gofalu am rywun, neu wedi ymddeol.
- Roedd ymatebwyr israddedig amser llawn o'r cwintel mwyaf amddifadus ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth lawnamser neu o fod yn astudio ymhellach yn llawnamser, na'r rhai o gwintel lleiaf amddifadus MALlC.
- Roedd 6% o’r ymatebwyr israddedig amser llawn yn ddi-waith; roedd hyn yr un peth yn holl gwintelau MALlC.

## Ble mae graddedigion yn gweithio?

O blith y graddedigion a ymatebodd i arolwg Hynt Graddedigion ac a ddywedodd mai gwaith oedd eu gweithgarwch pwysicaf:

- arhosodd 88% o'r rhai o Gymru ac a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru i weithio yng Nghymru.
- arhosodd 20% o'r rhai a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru ond a oedd yn dod o rannau eraill o'r DU yng Nghymru i weithio.
- gwnaeth 43% o'r rhai a ddeuai o Gymru ond a astudiodd gyda darparydd AU mewn rhan arall o'r DU ddychwelyd i weithio yng Nghymru.

## Myfyrdodau graddedigion

O blith y graddedigion o ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru a ymatebodd i arolwg Hynt Graddedigion 2022/23:

- Roedd 84% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod eu gweithgarwch presennol yn ystyrlon.
- Roedd 69% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod eu gweithgarwch presennol yn defnyddio'r sgiliau yr oeddent wedi'u dysgu yn ystod eu hastudiaethau.
- Roedd 75% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod eu gweithgarwch presennol yn cyd-fynd â'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

## Cyflwyniad a'r cefndir

Arolwg o raddedigion tua 15 mis ar ôl iddynt gwblhau eu cwrs yw'r arolwg Hynt Graddedigion, ac fe'i cynhelir gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

Mae data Hynt Graddedigion 2022/23 yn cynnwys myfyrwyr a gwblhaodd raglenni astudio cymwys rhwng 1 Awst 2022 a 31 Gorffennaf 2023 ac a gwblhaodd yr arolwg, neu o leiaf yr ymateb gofynnol lleiaf i gael eu cynnwys. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ymatebion gan raddedigion a astudiodd naill ai gyda darparydd addysg uwch yng Nghymru a graddedigion o Gymru a astudiodd gyda darparwyr addysg uwch yn unrhyw ran o'r DU.

Cwblhaodd 17,740 o raddedigion o ddarparwyr addysg uwch (AU) Cymru ymateb i arolwg Hynt Graddedigion 2022/23, neu gwblhau ymateb rhannol. Roedd hyn yn cynrychioli cyfradd ymateb o 41% o'r boblogaeth darged o 43,245 o ddarparwyr addysg uwch Cymru.

Ar draws pob darparydd yn y DU, rhoddodd 13,780 o raddedigion oedd â'u cyfeiriad parhaol yng Nghymru wrth gael mynediad i'w cwrs ymateb llawn neu rannol i arolwg 2022/23. Roedd hyn yn cynrychioli cyfradd ymateb o 49% o'r boblogaeth darged o 28,055.

Roedd cyfradd ymateb arolwg Hynt Graddedigion 2022/23 yn is na'r blynyddoedd cynt. Er mwyn helpu defnyddwyr y data i ddeall y mater hwn, mae HESA wedi cynnwys gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol yn y Canllaw i Ddefnyddwyr ar ei gwefan.

## Beth mae ymatebwyr yn ei wneud 15 mis ar ôl graddio?

### Ymatebwyr a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru

**Tabl 1: Gweithgarwch ymatebwyr a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru, 2018/19 i 2022/23**

| Gweithgarwch | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogaeth amser llawn | 52% | 53% | 57% | 58% | 56% |
| Cyflogaeth ran-amser | 11% | 11% | 11% | 11% | 12% |
| Patrwm cyflogaeth anhysbys | 1% | 1% | 0% | 0% | 1% |
| Gwaith gwirfoddol neu ddi-dâl | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% |
| Cyflogaeth ac astudiaeth bellach | 12% | 12% | 11% | 11% | 11% |
| Addysg bellach lawnamser | 10% | 10% | 8% | 6% | 6% |
| Addysg bellach ran-amser | 1% | 1% | 1% | 0% | 0% |
| Patrwm astudiaeth bellach anhysbys | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Arall gan gynnwys teithio, gofalu am rywun neu wedi ymddeol | 6% | 5% | 6% | 6% | 7% |
| Di-waith | 7% | 6% | 5% | 5% | 6% |

Data yn Ffigur 4 ar wefan HESA

**Tabl 2: Gweithgarwch ymatebwyr yn ôl gwlad y darparydd, 2022/23**

| | Gwlad y darparydd | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithgarwch** | **Cymru** | **Lloegr** | **Gogledd Iwerddon** | **Yr Alban** |
| Cyflogaeth amser llawn | 56% | 58% | 62% | 60% |
| Cyflogaeth ran-amser | 12% | 12% | 10% | 11% |
| Patrwm cyflogaeth anhysbys | 1% | 1% | 1% | 1% |
| Gwaith gwirfoddol neu ddi-dâl | 1% | 1% | 1% | 1% |
| Cyflogaeth ac astudiaeth bellach | 11% | 10% | 10% | 10% |
| Addysg bellach lawnamser | 6% | 5% | 5% | 6% |
| Addysg bellach ran-amser | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Patrwm astudiaeth bellach anhysbys | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Arall gan gynnwys teithio, gofalu am rywun neu wedi ymddeol | 7% | 6% | 6% | 6% |
| Di-waith | 6% | 6% | 4% | 5% |

Data yn Ffigur 4 ar wefan HESA

- Roedd 56% o'r ymatebwyr o ddarparwyr yng Nghymru yn arolwg 2022/23 mewn cyflogaeth amser llawn, sydd fymryn yn is na'r ddwy flynedd flaenorol. Roedd hyn yn is na'r ganran ar gyfer graddedigion a astudiodd yng ngweddill y DU (Lloegr: 58%, Gogledd Iwerddon 62%, Yr Alban 60%) lle bu gostyngiad hefyd dros ddwy flynedd ddiwethaf yr arolwg.
- Roedd 12% o'r ymatebwyr o ddarparwyr Cymru yn arolwg 2022/23 mewn cyflogaeth ran-amser, un pwynt canran yn uwch na phedair blynedd flaenorol yr arolwg. Roedd hyn yr un ganran ar gyfer graddedigion a astudiodd gyda darparwyr yn Lloegr yn 2022/23 ac yn uwch na'r ganran ar gyfer graddedigion a astudiodd gyda darparwyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Mae canran yr ymatebwyr o ddarparwyr Cymru sy'n cyflawni astudiaethau pellach wedi gostwng bob blwyddyn ers 2019/20, yn enwedig o ran y rhai sy'n gwneud hynny'n llawnamser. Fodd bynnag, roedd graddedigion o ddarparwyr Cymru ychydig yn fwy tebygol o fod yn dilyn astudiaethau pellach na'r rhai a oedd wedi astudio yng ngweddill y DU yn 2022/23.
- Roedd 6% o'r ymatebwyr i arolwg 2022/23 o ddarparwyr yng Nghymru yn ddi-waith. Mae'r ffigur hwn wedi amrywio un pwynt canran i'r naill gyfeiriad neu'r llall dros y pedair blynedd cynt. Yn 2022/23 roedd canran yr ymatebwyr o ddarparwyr Cymru a oedd yn ddi-waith yr un peth ag ar gyfer ymatebwyr o ddarparwyr yn Lloegr, ond yn uwch nag ymatebwyr o ddarparwyr yn yr Alban, sef 5%, neu Ogledd Iwerddon, sef 4%.

## Ymatebwyr a astudiodd yn unrhyw ran o'r DU

**Tabl 3: Gweithgarwch ymatebwyr o'r DU yn ôl eu cyfeiriad parhaol wrth ddechrau eu cwrs, 2022/23**

| | Gwlad cyfeiriad parhaol yr ymatebydd wrth gael ei dderbyn i'r sefydliad | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithgarwch** | **Cymru** | **Lloegr** | **Gogledd Iwerddon** | **Yr Alban** |
| Cyflogaeth amser llawn | 58% | 58% | 63% | 61% |
| Cyflogaeth ran-amser | 12% | 12% | 11% | 12% |
| Patrwm cyflogaeth anhysbys | 1% | 1% | 1% | 0% |
| Gwaith gwirfoddol neu ddi-dâl | 1% | 1% | 1% | 1% |
| Cyflogaeth ac astudiaeth bellach | 11% | 11% | 10% | 11% |
| Addysg bellach lawnamser | 6% | 5% | 5% | 4% |
| Addysg bellach ran-amser | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Patrwm astudiaeth bellach anhysbys | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Arall gan gynnwys teithio, gofalu am rywun neu wedi ymddeol | 7% | 6% | 6% | 6% |
| Di-waith | 4% | 5% | 3% | 4% |

Data yn Ffigur 4 ar wefan HESA

- Roedd 58% o'r ymatebwyr yn 2022/23 o Gymru mewn cyflogaeth amser llawn. Roedd hyn yn cyfateb i'r ganran ar gyfer ymatebwyr o Loegr. Roedd ymatebwyr o'r Alban (61%) a Gogledd Iwerddon (63%) yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth amser llawn.
- Yn gyffredinol, roedd 71% o'r ymatebwyr o Gymru yn gweithio, 6% mewn astudiaethau pellach ac 11% yn gwneud cyfuniad o weithio ac astudiaethau pellach.

**Tabl 4: Gweithgarwch ymatebwyr israddedig amser llawn o Gymru a astudiodd yn unrhyw ran o'r DU yn ôl Cwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALI) 2019 2022/23**

| | Cwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (C1 = mwyaf amddifadus a C5= lleiaf amddifadus) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgarwch** | **C1** | **C2** | **C3** | **C4** | **C5** |
| Cyflogaeth amser llawn | 50% | 50% | 51% | 54% | 54% |
| Cyflogaeth ran-amser | 17% | 13% | 14% | 12% | 11% |
| Patrwm cyflogaeth anhysbys | 1% | 1% | 1% | 0% | 1% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwaith gwirfoddol neu ddi-dâl | 2% | 2% | 1% | 1% | 1% |
| Cyflogaeth ac astudiaeth bellach | 11% | 11% | 11% | 11% | 11% |
| Addysg bellach lawnamser | 5% | 8% | 8% | 9% | 9% |
| Addysg bellach ran-amser | 0% | 0% | 0% | 1% | 0% |
| Patrwm astudiaeth bellach anhysbys | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Arall gan gynnwys teithio, gofalu am rywun neu wedi ymddeol | 8% | 9% | 8% | 6% | 6% |
| Di-waith | 6% | 6% | 6% | 6% | 6% |

[Nodyn] Mae'r tabl hwn yn hepgor unrhyw fyfyrwyr nad oedd modd cael hyd i'w cod post wrth ddechrau eu cwrs ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Data yn Ffigur 6 ar wefan HESA

- Yn arolwg 2022/23, roedd 50% o'r ymatebwyr israddedig amser llawn a ddeuai o 20% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru (cwintel 1 MALIC) mewn cyflogaeth amser llawn o gymharu â 54% o'r 20% o ardaloedd lleiaf amddifadus (cwintel 5 MALIC).
- Roedd 17% o'r ymatebwyr o'r cwintel MALIC mwyaf amddifadus mewn cyflogaeth ran-amser o gymharu ag 11% yng nghwintel lleiaf amddifadus MALIC.
- Roedd ymatebwyr o gwintel mwyaf amddifadus MALIC hefyd yn llai tebygol o fod yn dilyn astudiaethau pellach ar sail ran-amser. Astudiaethau pellach amser llawn oedd i gyfrif am 5% o'r ymatebwyr o gwintel mwyaf amddifadus MALIC, o gymharu â 9% o gwintel lleiaf amddifadus MALIC.
- Roedd cyfran yr ymatebwyr oedd yn ddi-waith yr un peth ar draws pob cwintel MALIC, sef 6%.


## Lleoliadau gwaith

Mae'r data yn yr adran hon yn cynnwys ymatebwyr a nododd mai gwaith oedd eu gweithgarwch pwysicaf, a lle'r oedd y wlad yr oeddent yn gweithio ynddi yn hysbys.

Mae'r canrannau yn yr adran hon yn wahanol i'r hyn a gyhoeddir ar wefan HESA yn Ffigur 16 gan ein bod wedi cynnwys ymatebwyr sy'n gweithio y tu allan i'r DU a rhai sy'n gweithio mewn rhanbarth anhysbys yn Lloegr. Mae Siart 2 hefyd yn cynnwys unrhyw ymatebwyr sy'n dod o ranbarth anhysbys yn Lloegr.

### Ymatebwyr a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru

**Siart 1: Lleoliadau gwaith ymatebwyr o Gymru a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru, 2018/19 i 2022/23**





Data yn Nhabl 1.1 ar y daenlen atodol.

Yn arolwg 2022/23, o'r ymatebwyr yr oedd eu cyfeiriad parhaol yng Nghymru wrth ddechrau ar eu cyrsiau ac a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru:

- Arhosodd 88% o'r ymatebwyr yng Nghymru i weithio.
- Roedd 11% o'r ymatebwyr yn gweithio mewn rhan arall o'r DU.
- Roedd 1% o'r ymatebwyr yn gweithio y tu allan i'r DU.

Nid yw cyfran yr ymatebwyr hyn a arhosodd yng Nghymru i weithio wedi newid rhyw lawer dros y pum mlynedd diwethaf yn ôl yr arolwg Hynt Graddedigion.

**Siart 2: Lleoliadau gwaith ymatebwyr o weddill y DU a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru, 2018/19 i 2022/23**




Data yn Nhabl 1.2 ar y daenlen atodol

Ar gyfer ymatebwyr a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru yr oedd eu cyfeiriad parhaol wrth ddechrau eu cwrs mewn rhan arall o'r DU:


- Arhosodd 20% o'r ymatebwyr yng Nghymru i weithio.
- Roedd 78% o'r ymatebwyr yn gweithio mewn rhan arall o'r DU.
- Roedd 2% o'r ymatebwyr yn gweithio y tu allan i'r DU.

Mae'r cyfrannau hyn wedi aros ar yr un lefel fwy neu lai drwy gydol pum mlynedd diwethaf yr arolwg Hynt Graddedigion.

## Ymatebwyr o Gymru a astudiodd mewn rhan arall o'r DU

Nid yw Siart 3 yn cynnwys y nifer fach o ymatebwyr o Gymru a astudiodd gyda darparydd addysg bellach yn Lloegr neu Ogledd Iwerddon gan nad oes gan Medr y data ar gyfer ymatebwyr o'r darparwyr hyn.

**Siart 3: Lleoliadau gwaith ymatebwyr o Gymru a astudiodd gyda darparwyr AU mewn rhan arall o'r DU, 2018/19 i 2022/23**




Data yn Nhabl 1.3 ar y daenlen atodol

Ar gyfer ymatebwyr yr oedd eu cyfeiriad parhaol yng Nghymru wrth ddechrau ar eu cwrs, ond a astudiodd gyda darparydd AU mewn rhan arall o'r DU. O arolwg 2022/23:

- Dychwelodd 43% o'r ymatebwyr i Gymru i weithio.
- Roedd 55% o'r ymatebwyr yn gweithio mewn rhan arall o'r DU.
- Roedd 2% o'r ymatebwyr yn gweithio y tu allan i'r DU.


Roedd y ffigurau hyn yn debyg i bedair blynedd blaenorol yr arolwg iddynt amrywio gwpl o bwyntiau canran y naill ffordd neu'r llall.

# Myfyrdodau graddedigion ar eu gweithgarwch

Gofynnwyd tri chwestiwn i'r graddedigion er mwyn crynhoi eu teimladau ynghylch eu gweithgarwch presennol, p'un a oedd y gweithgarwch hwnnw'n gyflogaeth, yn astudiaethau pellach neu'n rhywbeth arall. Mae geiriad y cwestiynau hyn yn amrywio rhywfaint yn dibynnu ar y gweithgarwch yr oedd yr ymatebwyr yn ei wneud yn ystod wythnos y cyfrifiad. Mae atebion i'r cwestiynau hyn wedi cael eu cyfuno er mwyn adrodd yn y cyhoeddiad hwn.

Mae'r adran hon yn crynhoi'r ymatebion gan rai a astudiodd gyda darparwyr yng Nghymru o'r pum mlynedd diwethaf yr arolwg Hynt Graddedigion.


**Siart 4: Ymatebion ynghylch a yw ymatebwr yn meddwl bod ei weithgarwch presennol yn ystyrlon, 2018/19 i 2022/23**




Data yn Ffigur 17 ar wefan HESA

- Roedd 84% o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod eu gweithgarwch presennol yn ystyrlon.
- Ychydig iawn o newid a gafwyd i'r ffordd yr atebodd ymatebwyr y cwestiwn hwn ym mhum mlynedd olaf yr arolwg.


**Siart 5: Ymatebion ynghylch a yw ymatebwr yn meddwl ei fod yn defnyddio'r hyn a ddysgodd wrth astudio yn ei weithgarwch presennol, 2018/19 o 2022/23**




Data yn Ffigur 17 ar wefan HESA

- Roedd ychydig dros ddwy ran o dair (69%) o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi defnyddio'r hyn a ddysgwyd ganddynt yn eu hastudiaethau yn eu gweithgarwch presennol. Gostyngodd y ffigur hwn un pwynt canran bob blwyddyn ers arolwg 2019/20.
- Cynyddodd canran yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â hyn o 11% yn 2018/19 i 13% yn 2022/23. Roedd 8% o’r ymatebwyr yn anghytuno’n gryf, cyfran debyg i flynyddoedd blaenorol.

**Siart 6: Ymatebion i'r cwestiwn a yw ymatebwr yn meddwl bod ei weithgarwch presennol yn cyd-fynd â'i gynlluniau i'r dyfodol, 2018/19 i 2022/23**




[Data yn Ffigur 17 ar wefan HESA]

- Roedd tri chwarter (75%) o ymatebwyr 2022/23 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod eu gweithgarwch presennol yn cyd-fynd â'u cynlluniau i'r dyfodol. Mae hyn yn ostyngiad o ddau bwynt canran o'i gymharu â dwy flynedd flaenorol yr arolwg, ac un pwynt canran yn is nag yn 2018/19 a 2019/20.

## Cyflogau graddedigion amser llawn sy'n byw yn y DU a enillodd gymwysterau gradd gyntaf ac a ddechreuodd gyflogaeth amser llawn

Mae'r data yn yr adran hon yn cynnwys ymatebwyr a nododd mai gwaith oedd eu gweithgarwch pwysicaf ac a oedd yn gweithio'n llawnamser ar ôl dechrau cymhwyster gradd gyntaf. Daw'r cyflogau canolrif pwysedig o Ffigur 14 ar wefan HESA sydd hefyd yn dadansoddi'r cyflogau ymhellach ar sail pwnc a sgìl.

Cyflog canolrifol pwysedig yr ymatebwyr hyn yn arolwg 2022/23 o ddarparwyr yng Nghymru oedd £27,975 (£28,500 o ddarparwyr yn Lloegr, £29,990 o ddarparwyr yn yr Alban a £27,949 o ddarparwyr yng Ngogledd Iwerddon).

# Diffiniadau a Rhestr Termau

Mae HESA yn cyhoeddi diffiniadau ar gyfer yr Arolwg Hynt Graddedigion ar ei gwefan.

### Blwyddyn Academaidd

Y flwyddyn academaidd yw'r flwyddyn academaidd pan raddiodd yr ymatebwr, a darparwyd ei ymatebion tua 15 mis yn ddiweddarach.

### Cyflog canolrifol pwysedig

Cyflog canolrifol pwysedig yw ffordd o gyfrifo cyflog canol (50fed canradd) gan gynnwys wahanol grwpiau neu gategorïau. Mae'r dull hwn yn ystyried grwpiau o wahanol feintiau, gan roi mwy o bwyslais ar grwpiau ac ynddynt fwy o bobl. Mae hyn yn golygu nad yw cyflogau graddedigion o grwpiau llai wedi'u gorgynrychioli ac nad yw eu heffaith ar y canolrif cyffredinol yn anghymesur.

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Rydym wedi defnyddio fersiwn 2019 o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) fel dull o fesur yr amddifadedd yn yr ardal y mae ymatebwr yn hanu ohoni. Mae rhagor o wybodaeth am MALIC ar gael ar Wefan Llywodraeth Cymru.

### O ble mae'r ymatebydd yn dod

Mae'r ardal y mae'r ymatebydd yn dod ohoni yn seiliedig ar ei gyfeiriad parhaol wrth ddechrau ei gwrs.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Gweler y ddogfen Ansawdd a methodoleg sydd ynghlwm am ragor o wybodaeth.

### Datganiad Cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harferion ystadegol eu rheoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). Mae'r OSR yn gosod y safonau ar gyfer dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer Ystadegau y dylai holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol gadw atynt.

Caiff ein holl ystadegau eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau, i gynyddu eu dibynadwyedd, eu hansawdd a'u gwerth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Natganiad Cydymffurfiaeth Medr yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae'r ystadegau swyddogol  hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus yn y ffyrdd canlynol.

**Dibynadwyedd**

Mae'r ystadegau hyn wedi'u cyhoeddi yn unol â Datganiad Cydymffurfiaeth Medr a'r polisi mynediad at ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

**Ansawdd**

Y ffynhonnell ddata ar gyfer y wybodaeth hon yw arolwg Hynt Graddedigion HESA. Mae HESA yn cyhoeddi'r canlyniadau fel Ystadegau Swyddogol Achrededig ar ei gwefan. Mae'r rhan fwyaf o'r ystadegau yn yr adroddiad yn cyfateb i'r hyn a gyhoeddir gan HESA. Yr eithriad i hyn yw'r data sy'n edrych ar y wlad y mae'r ymatebwyr yn gweithio ynddi lle rydym wedi defnyddio poblogaethau ychydig yn wahanol.

Mae HESA yn cyhoeddi gwybodaeth am fethodoleg yr arolwg ac adroddiad ansawdd ar ei gwefan. Wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn caiff ei wirio gan ddadansoddwyr ystadegol yn Medr.

**Gwerth**

Mae'r ystadegau hyn yn rhoi cipolwg o hynt graddedigion o ddarparwyr addysg uwch Cymru, a graddedigion o Gymru fu'n astudio ledled y DU. Mae cynhyrchu'r ystadegau hyn yn helpu i ddarparu tystiolaeth i unrhyw un sydd â diddordeb yn yr hyn y mae myfyrwyr yn ei wneud ar ôl eu hastudiaethau ac a ydynt yn teimlo bod eu hastudiaethau wedi bod o fudd.

## Ystadegau cysylltiedig

Cyhoeddir canlyniadau Hynt Graddedigion gan HESA yn yr adran Data Hynt Graddedigion AU ar ei gwefan. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiadau ychwanegol o beth o'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn edrych ar nodweddion personol graddedigion a nodweddion y cyrsiau y buont yn eu hastudio.

Cyhoeddwyd adroddiadau cynharach yn y gyfres hon ar llyw.cymru.

## Gwybodaeth gyswllt

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir anfon adborth, cwestiynau, a cheisiadau am ddata pellach drwy e-bost i: YstadegauAU@medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**